O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif 351 (Cy. 66)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Crown, Llantarnam i Gylchfan Edlogan Way, Croesyceiliog, Torfaen) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Mawrth 2018* |
| *Yn dod i rym* | *13 Mawrth 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A4042 Casnewydd i'r Amwythig, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Crown, Llantarnam i Gylchfan Edlogan Way, Croesyceiliog, Torfaen) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 13 Mawrth 2018.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 13 Mawrth 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" *("the trunk road")* yw Cefnffordd yr A4042 Casnewydd i'r Amwythig.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd rhwng Llantarnam a Chroesyceiliog ym Mwrdeistref Sirol Torfaen sy'n ymestyn o bwynt 44 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan Crown hyd at bwynt 42 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Edlogan Way, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol Cylchfan Turnpike.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Mawrth 2018

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru